Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 10 Gorffennaf 2017 am 7:30p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Keiran Allsopp-Robson, James Bryan, Gavin Harris, Ian Lewney, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne.

12. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

13. DATGAN BUDDIANNAU
Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

14. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod y cofnodion a gynhaliwyd ar 12 Mehefin yn gywir.*

15. MATERION YN CODI
Cyfeiriodd y Cynghorydd Gavin Harris at y tyllau gweld arfaethedig yn wal llwybr Cwningar y Castell i alluogi pobl i weld waliau hynafol Castell Rhuthun, ac awgrymodd brosiect potensial arall, fel comisiynu perisgopau i edrych dros y wal gerrig a'u cynnwys fel ychwanegiad at Lwybr Celf Rhuthun.

16. DYFYNBRISIAU AM AIL-BAENTIO'R PARC SGLEFRFYRDDIO
Ystyriodd yr aelodau dri dyfynbris, gan gwmnïau Chapman, S. Roberts a Moseley. Awgrymwyd efallai y byddai'r contractwr yn cynnig disgownt am gael yr gosod arwydd maint A3 yn y parc sglefrfyrddio.
PENDERFYNWYD*: derbyn y pris o £1,911.56 + TAW a dwy haen ychwanegol o Graffiti Magic ar ochrau'r rampiau am £146.90 ychwanegol + TAW gan gwmni Moseley Painters & Decorators.*

17. DYFYNBRISIAU GOLEUADAU NADOLIG GAN BLACHERE
Bu'r aelodau'n ystyried y ddau ddewis a gyflwynwyd gan gwmni Blachere, mewn cymhariaeth â dyfynbris Lite Illuminations.
PENDERFYNWYD*: derbyn y dyfynbris gan Blachere Illuminations i logi'r goleuadau sy'n bodoli eisoes am gyfnod o dair blynedd ar bris o £3,157.71 y flwyddyn + TAW.*

18. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 11 Medi 2017 am 7:30pm.*